

tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai

# PECYN RECRIWTIO

## Rheolwr Polisi

**LLleoliad:** Gweithio o bell gyda theithio achlysurol ledled Cymru, gan gynnwys cyfarfodydd staff yn swyddfa Caerdydd

**Dyddiad cau:** 8 Medi am 12 p.m
**Cam 1 Cyfweliad (canolfan asesu grŵp):** Dydd Iau 18 Medi 10 a.m. – 12 p.m
**Cam 2 Cyfweliad (unigol):** Dydd Iau 25 Medi

**Tymor penodol hyd at Dachwedd 2026**

# Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y swydd Rheolwr Polisi.



Tai Pawb yw'r sefydliad mwyaf blaenllaw yng Nghymru o ran hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Rydym yn dychmygu Cymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da. Rydym yn gweithio gyda llunwyr polisïau ac yn dylanwadu arnynt, ac rydym yn cefnogi ein haelodau a'r sector tai yn ehangach i'w helpu i wreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth maen nhw'n ei wneud.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â Tai Pawb wrth i ni ganolbwyntio ar ddylanwadu drwy ein maniffesto, camau nesaf ein hymgyrch Cefnogi'r Mesur, yn ogystal â strategaeth 5 mlynedd newydd ar gyfer y sefydliad.

Yn y rôl hon, rydym yn chwilio am rywun sydd ag angerdd gwirioneddol dros gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, ynghyd â phrofiad o gefnogi gwaith i ddylanwadu ar bolisi ac â dealltwriaeth o brosesau gwleidyddol. Byddwch yn gyfathrebwr hyderus ac yn aelod o'r tîm sy'n cydweithio'n effeithiol, yn awyddus i'n helpu i ymgysylltu'n effeithiol â llunwyr polisïau allweddol, sylwebwyr a rhanddeiliaid yng Nghymru.

Yma yn Tai Pawb, mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac mae angen pobl wych arnom i'n helpu i'w cyflawni. Fel sefydliad bach, deinamig, mae gweithio gyda ni yn golygu:

- Ennill profiad amrywiol ac ehangu eich rhwydweithiau
- Gweld effaith uniongyrchol eich gwaith
- Dylanwadu ar ein cyfeiriad drwy wneud penderfyniadau'n gyflym
- Elwa o'n Wythnos Waith 4 Diwrnod arloesol — 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau, datblygu eich potensial, a bod yn rhan o dîm sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech wneud cais neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses gyfweld – mae croeso i chi gysylltu'n uniongyrchol: **alicja@taipawb.org**

Edrychaf ymlaen at gael eich cais.

Alicja Zalesinska
Prif Swyddog Gweithredol


# Amdanom ni




## Pwy ydyn ni?

Tai Pawb yw'r prif sefydliad cenedlaethol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y sector tai. Mae gennyn ni weledigaeth o Gymru lle mae gan bawb yr hawl i gael cartref da. Rydym ni'n cefnogi ac yn gweithio gyda'n haelodau i'w helpu i roi syniadau ar waith, rydym ni'n dylanwadu ar lunwyr polisïau i sicrhau bob polisïau tai yn deg, ac rydym ni'n arweinwyr syniadau ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar gyfer y sector tai a'r tu hwnt.

## Ein Tîm



# Pam gweithio yn Tai Pawb?

## Budd-daliadau

### CYFLOG

Rydym ni'n cynnig cyflog cystadleuol. Mae hyn yn cael ei feincnodi'n rheolaidd yn erbyn safonau'r diwydiant.

### PENSIWN

Cynllun pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Bydd Tai Pawb yn cyfrannu 5% at eich pensiwn.

### WYTHNOS WAITH 4 DIWRNOD

Rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025, bydd Tai Pawb yn treialu wythnos waith 4 diwrnod. Mae'r Wythnos Waith 4 Diwrnod yn seiliedig ar egwyddor o gyflawni 100% o'r gwaith, mewn 80% o'r amser, am 100% o'r cyflog (nid yw'n golygu oriau cywasgedig na thâl pro rata). read more here

### GWEITHIO HYBLYG

Gartref fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n bennaf. Mae gennyn ni swyddfa yng Nghaerdydd ac mae modd ei defnyddio drwy gydol yr wythnos yn unol ag anghenion aelodau staff. Rydyn ni'n disgwyl y byddwch chi'n cwrdd â'ch rheolwr llinell yn rheolaidd i drafod gwaith prosiect.

### GWYLIAU

Mae gan staff hawl i gael 23 diwrnod o wyliau blynyddol ac 8 Gŵyl Banc. Rydym ni hefyd yn cynnig tâl da ar gyfer absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir.

### LLUNIO'R SEFYDLIAD A'N GWAITH

Bydd ymuno â Tai Pawb yn rhoi cyfle i chi helpu i lunio ein gwaith yn ogystal â'n hymatebion i gyfleoedd a heriau yn y sector tai a chydraddoldeb. Rydym ni'n sefydliad gwirioneddol golegol a chydweithredol sy'n gwerthfawrogi mewnbwn a phrofiad staff.

# Disgrifiad Swydd

**Swydd:** Rheolwr Polisi
**Yn atebol i:** Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus
**Cyflog:** £37,874
**Oriau:** Contract 35 awr yr wythnos (dull hyblyg o weithio). Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu wythnos waith 4 diwrnod (100% o'r cyflog am 80% o'r oriau ac 100% o'r canlyniadau). Nid ydym yn gweithio ar ddydd **Gwener.**
**Contract:** Tymor penodol hyd at Dachwedd 2026
**Lleoliad:** Gartref yn bennaf, gyda mynediad at y swyddfa a sesiynau swyddfa o leiaf unwaith y mis (addasiadau rhesymol lle bo angen)
**Teithio:** Teithio'n achlysurol ar hyd a lled Cymru ac i gyfarfodydd a digwyddiadau aelodaeth a phartneriaethau
**Cysylltiadau allweddol:** Cydweithwyr mewnol, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion, y trydydd sector, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol

## Pwrpas y swydd:

Mae'r swydd hon wedi'i hariannu gan Sefydliad Oak i gefnogi ein gweithgareddau dylanwadu ac ymgyrchu.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ar ddatblygu polisi, dylanwadu ac ymgyrchu ar draws ystod o faterion sy'n ymwneud â thai, cydraddoldeb a hawliau dynol. Bydd hyn yn cynnwys yn benodol ein hymgyrch ar y cyd 'Cefnogi'r Mesur: yr hawl i gael cartref da' ochr yn ochr â Shelter Cymru ac CIH Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn rheoli'r Cydlynydd Polisi dros dro (hyd at ddiwedd Mawrth 2026).

# Disgrifiad Swydd

## Y Prif Ddyletswyddau

- Cydlynu'r ymgyrch 'Cefnogi'r Mesur: yr hawl i gael cartref da', gyda chefnogaeth strategol gan y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, gan gynnwys:
- Arwain gweithgareddau partneriaeth gyda Shelter Cymru a CIH Cymru, gan gynnwys cyfarfodydd ac allbynnau ar y cyd sy'n cefnogi cyflawni'r ymgyrch.
- Defnyddio a hyrwyddo sail dystiolaeth yr ymgyrch—gan gynnwys ymchwil, astudiaethau achos a mewnwelediadau rhanddeiliaid—i ddylanwadu ar benderfynwyr a chynnal momentwm yr ymgyrch.
- Ysgogi ymgysylltiad gwleidyddol wrth i etholiadau'r Senedd agosáu, gan gynnwys cyrraedd Aelodau'r Senedd, gweinidogion, swyddogion a phwyllgorau.
- Cynnal a datblygu cefnogaeth rhanddeiliaid, gan sicrhau bod negeseuon yr ymgyrch yn gyson, yn gynhwysol ac yn grymusol.
- Cefnogi gwaith polisi Tai Pawb ar draws meysydd strategol allweddol gan gynnwys hil, anabledd, LGBT+ a materion cydraddoldeb eraill.
- Gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio a monitro polisïau sy'n ymwneud â thai, gan sicrhau eu bod yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Datblygu papurau polisi, briffiau, canllawiau ac adnoddau arfer da, a dylanwadu ar randdeiliaid i'w mabwysiadu.
- Cynnal ymchwil ac ymgysylltu â'n haelodau a'n partneriaid i adeiladu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer gwaith dylanwadu Tai Pawb.
- Monitro a chyfleu effaith gweithgareddau polisi a dylanwadu drwy arolygon, adborth a dadansoddiad rhanddeiliaid.
- Cydweithio ar draws y tîm i ymgorffori profiadau byw mewn datblygu polisi a chyfrannu at nodau strategol ehangach y sefydliad.
- Rheoli'r Cydlynydd Polisi hyd at ddiwedd Mawrth 2026 (dod i ben ar ôl hynny)
- Cyflawni unrhyw dasgau eraill a allai godi o bryd i'w gilydd fel aelod o dîm bach gyda chylch gwaith cenedlaethol

# Disgrifiad Swydd

## Hanfodol

**Gwybodaeth a Phrofiad**

- Wedi cymhwyso i lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol.
- Hanes o ddatblygu perthnasoedd effeithiol a chredadwy gyda ystod eang o randdeiliaid.
- Dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â thai, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys polisi ac arferion.
- Dealltwriaeth o'r trydydd sector a'r sector tai.
- Profiad o gyfrannu at ddatblygu polisi a gwaith dylanwadu.
- Dealltwriaeth o amgylcheddau Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

**Sgiliau a Chymwyseddau**

- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac yn ysgrifenedig ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a phwrpasau, gan gynnwys siarad cyhoeddus.
- Trefnus iawn gyda sgiliau cynllunio prosiect ac ymchwil, a'r gallu i weithio'n annibynnol.
- Sgiliau TG lefel uwch gan gynnwys Excel, Word, PowerPoint, Co-pilot neu feddalwedd debyg.
- Y gallu i ennill dealltwriaeth gadarn yn gyflym mewn meysydd polisi amrywiol.
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a gwrth-hiliaeth.

## Dymunol

- Profiad byw o anghydraddoldeb.
- Profiad o redeg ymgyrch gyda'r nod o ddylanwadu ar ddeddfwriaeth.
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Y CAMAU NESAF

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch y ffurflen gais a'r ffurflen monitro cydraddoldeb at **andrea@taipawb.org** erbyn **12pm ar 8 Medi 2025**

Sylwch, nid ydym yn derbyn CV fel ffurflen gais. Rhaid i chi gwblhau ein ffurflen gais a'i dychwelyd yn fformat Word (os ydych yn cael unrhyw anhawster i'w hanfon yn fformat Word, cysylltwch â ni: **info@taipawb.org**). Mae Tai Pawb wedi ymrwymo i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol. Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion o bob cefndir. Er mwyn ein helpu i gynrychioli'n well y materion rydym yn gweithio arnynt ac i gael gwared ar rwystrau, bydd pob ymgeisydd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol, yn ogystal â phob ymgeisydd anabl, yn cael cyfweliad wedi'i warantu yn ystod Cam 1 (canolfan asesu grŵp).

Mae gan ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol yr opsiwn i symud yn syth i Gam 2 (cyfweliad unigol). Os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch, nodwch hyn yn yr adran berthnasol ar y ffurflen gais. Byddwn yn cysylltu â chi i drafod hyn os cewch eich dewis ar gyfer cyfweliad.



**DEFNYDDIO AI MEWN CEISIADAU A CHYFWELIADAU**

Yn Tai Pawb, rydym yn gwerthfawrogi dilysrwydd a phrofiad byw. Rydym yn gwybod bod gan bob ymgeisydd fewnwelediadau unigryw, ac rydym am glywed am y rhain yn eich geiriau eich hun.

Er ein bod yn deall y gall offer AI helpu i strwythuro syniadau neu baratoi ar gyfer cyfweliadau, rydym yn eich annog i beidio â dibynnu'n ormodol arnynt i ysgrifennu eich cais. Os ydych yn defnyddio AI, defnyddiwch ei awgrymiadau fel man cychwyn—nid fel cynnyrch gorffenedig—ac sicrhewch fod popeth rydych yn ei gyflwyno yn adlewyrchu eich profiad eich hun yn ddilys.
Os byddwch yn symud ymlaen i gyfweliad, mae croeso i chi ddefnyddio AI i:

- Ymchwilio i dueddiadau yn y sector neu waith Tai Pawb
- Ymarfer cwestiynau cyfweliad neu wella eich cyfathrebu
- Trefnu eich meddyliau a'ch ymatebion

Peidiwch â:

- Cyflwyno atebion a gynhyrchwyd gan AI fel eich rhai chi eich hun
- Defnyddio AI i gam-gynrychioli eich profiad neu sgiliau
- Defnyddio offer AI yn ystod cyfweliadau byw

Rydym yn awyddus i glywed eich llais, eich gwerthoedd, a'ch safbwynt—gadewch iddynt ddisgleirio.

tai pawb

promoting equality in housing
hybu cydraddoldeb ym maes tai